TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# CBAC Gofal Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3



**Yn gryno**

Mae'r cymhwyster hwn yn caniatáu dysgwyr i ddatblygu'r wybodaeth a sgiliau angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth a/neu ddatblygu gyrfa mewn lleoliadau gofal plant neu iechyd.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Hoffech weithio ar lefel goruchwylio

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn gofal plant

... Hoffech symud ymlaen i radd mewn disgyblaeth gysylltiedig.

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae hon yn rhaglen am ddwyflynedd, sydd fel arfer yn cynnwys3 diwrnod ar y campws a 2 ddiwrnod mewn lleoliad gwaith.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch angen cwblhau lleiafswm o 700 awr mewn lleoliad gwaith dros gyfnod o ddwy flynedd, wrth ddilyn elfennau damcaniaethol yn y coleg.

Bydd dysgwyr yn gwneud amrywiaeth o asesiadau yn ystod lleoliadau gwaith, ynghyd ag asesiadau mewnol ac allanol ar gyfer yr elfennau damcaniaethol.

Wedi i chi gwblhau'r cwrs byddwch wedi cyflawni:

Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant Lefel 3 Craidd ac Ymarfer Theori
L2 CCPLD Craidd
Hylendid Bwyd
Cymorth Cyntaf Pediatrig

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Bydd disgwyl i chi ymrwymo i astudio am 5 diwrnod, ac mae hynny'n cynnwys dysgu'r elfen wybodaeth o'r cymwysterau yn y coleg, a diwrnodau/blociau lleoliad gwaith ar gyfer yr elfen gymhwystra o'r cymwysterau.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn ofynnol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, y gallu i gymell eich hun a brwdfrydedd tuag at y diwydiant gofal.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, gallech ystyried dilyn cyrsiau Addysg Uwch mewn meysydd cysylltiedig, neu swyddi fel gweithiwr gofal, gwarchodwr plant, nyrs feithrinfa, cynorthwywyr grwp chwarae, cynorthwywyr meithrinfa, cynorthwywyr creche, gweithiwr gofal plant y tu allan i'r ysgol neu gynorthwyydd Cylch Meithrin.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd rhaid i bob dysgwr gael gwiriad DBS boddhaol cyn dechrau'r cwrs hwn.